# Myotomi cricoffaryngaidd laser carbon deuocsid endosgopig ar gyfer lleddfu dysffagia oroffaryngaidd

Mawrth 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r ansicrwydd a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd.

Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y driniaeth hon.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai esbonio'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau a'r cymhlethdodau posibl. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

## Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol ym maes rheoli dysffagia oroffaryngaidd benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig myotomi cricoffaryngaidd laser carbon deuocsid endosgopig.

## Y cyflwr

Ystyr dysffagia yw anhawster wrth lyncu. Golyga oroffaryngaidd ran uchaf yr oesoffagws, a elwir hefyd yn gorn gwddf neu bibell fwyd. Gall ddigwydd mewn cyflyrau megis sglerosis ymledol, clefyd niwronau motor a chlefyd Parkinson. Gall hefyd ddigwydd ar ôl strôc, neu ar ôl radiotherapi neu lawdriniaeth ar gyfer trin canser yn y pen neu'r gwddf. Weithiau mae'r achos yn anhysbys. Un achos yw gwayw neu greithiau ar y cyhyr cricoffaryngaidd, sy'n rhedeg o amgylch rhan uchaf y corn gwddf. Gall hyn achosi problemau fel pesychu neu

dagu wrth fwyta neu yfed, a bwyd neu ddiod yn mynd i lawr y ffordd anghywir i'r ysgyfaint, a all arwain at heintiau ar y frest, a cholli pwysau.

Mae triniaeth yn dibynnu ar achos a math y dysffagia, ac mae'n cynnwys therapi llyncu (sy'n helpu'r claf i ailddysgu technegau llyncu, ac yn cryfhau'r cyhyrau a ddefnyddir wrth lyncu), therapi cyffuriau, ymlediad (ehangu'r bibell fwyd) a llawdriniaeth agored drwy doriad yn y gwddf.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio myotomi cricoffaryngaidd laser carbon deuocsid endosgopig fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Caiff y llawdriniaeth ei chwblhau fel arfer o dan anesthetig cyffredinol. Caiff endosgop (tiwb anhyblyg tenau gyda chamera ar y pen) a laser carbon deuocsid ei roi i mewn drwy'r geg. Defnyddir y laser i dorri drwy'r cyhyr, i leddfu'r rhwystr a gwella'r gallu i lyncu.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oes digon o dystiolaeth i wybod pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd yr 8 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 404 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangosodd yr astudiaethau fod y gallu i lyncu yn gwella ar ôl y driniaeth. Ond mewn rhai cleifion nid oedd yn gwella neu roedd y symptomau'n dychwelyd, ac roedd angen triniaeth bellach.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau canlynol yn gysylltiedig â'r driniaeth:

- tyllau neu rwygau yn y corn gwddf, gyda'r angen am driniaeth bellach
- parlys llinynnau'r llais, gan achosi problemau gyda'r lleferydd
- niwmonia allsugno, gyda'r angen am driniaeth mewn ysbyty
- gwaedu difrifol.

Dywedwyd wrth NICE am risgiau posibl eraill hefyd: niwed i'r dannedd, poen yn y frest, haint yng nghanol y frest, a chreithio a phroblemau pellach gyda chleifion a gafodd driniaeth gyda radiotherapi.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1845-4